# Canllawiau

## Contractau Cyfleustodau

### Atodiad A: Crynodeb o ddarpariaethau penodol ynglŷn â chyfleustodau yn Neddf Caffael 2023 (y Ddeddf)

Rhagfyr 2024

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50130, ISBN digidol 978-1-83715-133-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Canllawiau: Contractau Cyfleustodau

### Atodiad A: Crynodeb o ddarpariaethau penodol ynglŷn â chyfleustodau yn Neddf Caffael 2023 (y Ddeddf)

| Cyfeiriad deddfwriaethol | Darpariaethau penodol ynglŷn â chyfleustodau | Cyfleustod cymwys |
|---|---|---|
| Adran 2: Awdurdod contractio | Mae adran 2 (1) yn nodi mai awdurdod cyhoeddus yw awdurdod contractio; neu mewn perthynas â chontract cyfleustodau, awdurdod cyhoeddus, ymgymeriad cyhoeddus neu gyfleustod preifat ydyw, heblaw (ym mhob achos) awdurdod eithriedig. | Pob cyfleustod |
| | Mae adran 2 (2) yn disgrifio:<br><br>Awdurdod cyhoeddus fel person:<br>● a ariennir yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy arian cyhoeddus; neu<br>● sy'n destun goruchwyliaeth awdurdod cyhoeddus; ac nad yw'n gweithredu ar sail fasnachol (ond gweler hefyd is-adrannau (9) a (10) o'r Ddeddf); | Awdurdodau cyhoeddus |
| | Ymgymeriad cyhoeddus yw person sy'n destun goruchwyliaeth awdurdod cyhoeddus ac sy'n gweithredu ar sail fasnachol; | Ymgymeriadau cyhoeddus |
| | Cyfleustod preifat fel person nad yw'n awdurdod cyhoeddus nac yn ymgymeriad cyhoeddus ac sy'n cyflawni gweithgaredd cyfleustod. | Cyfleustodau preifat |
| | Mae adran 2 (7) yn darparu bod yn rhaid i ymgymeriadau cyhoeddus a chyfleustodau preifat gael eu trin fel awdurdodau Albanaidd datganoledig os ydynt yn gweithredu yn yr Alban neu mewn perthynas â'r Alban yn unig, ac:<br>● nad oes yr un o'i weithgareddau yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl; neu<br>● os yw rhai o'i weithgareddau yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl ond nid pob un. | Ymgymeriadau cyhoeddus a chyfleustodau preifat |

| Cyfeiriad deddfwriaethol | Darpariaethau penodol ynglŷn â chyfleustodau | Cyfleustod cymwys |
|---|---|---|
| Adran 6: Contractau cyfleustodau | Mae adran 6 (1) yn nodi'r diffiniad o gontract cyfleustodau, sef contract ar gyfer cyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu weithiau yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion gweithgaredd cyfleustod. | Pob cyfleustod |
| | Mae adran 6 (2) yn diffinio gweithgaredd cyfleustod fel a ganlyn:<br><br>Adran 6 (2) (a) a (b) – gweithgaredd a restrir yn Rhan 1 ond nid Rhan 2 o Atodlen 4 (gweithgareddau cyfleustod);<br><br>Adran 6 (2) (c) – gweithgaredd a gyflawnir yn gyfan gwbl y tu allan i'r DU (e.e. nad yw'n golygu defnyddio rhwydwaith nac ardal ddaearyddol yn y DU); | Pob cyfleustod |
| | Adran 6 (2) (d) – ar gyfer cyfleustodau preifat, unrhyw weithgaredd y rhoddwyd hawl arbennig neu lwyr-gyfyngedig i'r cyfleustod ar ei gyfer (h.y. ni fyddai caffaeliad na roddwyd y cyfryw hawl i gyfleustod preifat ar ei gyfer yn cael ei gwmpasu gan y Ddeddf). | Cyfleustodau preifat |
| | Mae adran 6 (3) yn darparu bod yn rhaid i berson gyflawni gweithgaredd cyfleustod yn seiliedig ar hawl arbennig neu lwyr-gyfyngedig os rhoddwyd yr hawl i gyflawni'r gweithgaredd drwy ddarpariaeth statudol, reoliadol neu weinyddol a bod y ddarpariaeth hefyd yn cyfyngu'n sylweddol ar allu personau eraill na roddwyd yr hawl iddynt i gyflawni'r gweithgaredd. | Cyfleustodau preifat |
| | Mae adran 6 (4) yn darparu nad yw hawl yn hawl arbennig na llwyr-gyfyngedig os rhoddwyd yr hawl honno yn dilyn gweithdrefn dendro gystadleuol o dan adran 19 o'r Ddeddf neu pan roddwyd cyhoeddusrwydd digonol i'r cyfle a rhoddwyd yr hawl yn seiliedig ar feini prawf anwahaniaethol. | Cyfleustodau preifat |

| Cyfeiriad deddfwriaethol | Darpariaethau penodol ynglŷn â chyfleustodau | Cyfleustod cymwys |
|---|---|---|
| | | |
| | Mae adran 6 (5-6) yn gweithio gyda'i gilydd ac yn darparu y caiff awdurdod priodol ddiwygio Rhan 2 o Atodlen 4, sy'n nodi gweithgareddau nad ydynt yn weithgareddau cyfleustod, er mwyn pennu gweithgareddau neu ddileu gweithgareddau o'r Rhan honno. Dim ond os yw'n fodlon bod y prawf yn adran 6 (6) wedi'i fodloni y caiff awdurdod priodol bennu gweithgaredd yn Rhan 2: h.y. bod y farchnad ar gyfer y gweithgaredd a bennir yn destun cystadleuaeth deg ac effeithiol ac na chyfyngir ar fynediad i'r farchnad honno. | Pob cyfleustod |
| | Mae adran 6 (7) yn egluro bod cyfeiriad at gyfleustodau yn cynnwys cyfeiriad at gytundeb fframwaith lle mae'r fframwaith hwnnw ar gyfer dyfarnu contractau cyfleustodau yn y dyfodol. | Pob cyfleustod |
| Adran 10: Caffael cymysg: contractau cyfundrefn arbennig | Mae adran 10 (6) yn darparu mai math o gontract cyfundrefn arbennig sy'n ddarostyngedig i'r rheolau yn yr adran hon yw contractau cyfleustodau. | Pob cyfleustod |
| Adran 13: Y datganiad polisi caffael cenedlaethol: | mae adran 13 (10) yn darparu nad yw'r rhwymedigaeth yn adran 13 (9) i roi sylw i'r datganiad polisi caffael cenedlaethol yn gymwys i gyfleustodau preifat. | Cyfleustodau preifat |
| Adran 14: Datganiad polisi caffael Cymru | Mae adran 14 (9) yn darparu nad yw'r rhwymedigaeth yn adran 14 (8) i roi sylw i ddatganiad polisi caffael Cymru yn gymwys i gyfleustodau preifat. | Cyfleustodau preifat |
| Adran 17: Hysbysiadau ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad | Nid yw adran 17 yn gymwys i gyfleustodau preifat: diwygiwyd adran 17 gan Reoliadau Caffael (Cymru) 2024 er mwyn datgymhwyso'r adran hon ar gyfer cyfleustodau preifat | Cyfleustodau preifat |
| Adran 21: Hysbysiadau tendro a dogfennau | Mae adran 21 (7) yn cyfeirio at adran 40 (Hysbysiadau marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol: dim dyletswydd i gyhoeddi hysbysiad tendro) sy'n darparu | Pob cyfleustod |

| Cyfeiriad deddfwriaethol | Darpariaethau penodol ynglŷn â chyfleustodau | Cyfleustod cymwys |
|---|---|---|
| tendro cysylltiedig | eithriad i'r ddyletswydd i gyhoeddi hysbysiad tendro (fel rhan o weithdrefn agored neu weithdrefn hyblyg gystadleuol) pan ddyfernir contractau o dan farchnad ddynamig cyfleustodau a sefydlwyd drwy gyfeirio at hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol. (Mae adran 40 yn darparu bod yn rhaid i'r hysbysiad tendro gael ei ddarparu yn lle hynny i bob cyflenwr sy'n aelod o'r farchnad ddynamig, neu ran berthnasol o'r farchnad.) | |
| Adran 34: Dyfarnu cystadleuol drwy gyfeirio at farchnadoedd dynamig | Mae adran 34 (7) yn golygu y gellir caffael contractau consesiwn sydd hefyd yn gontractau cyfleustodau o dan farchnadoedd dynamig (ond na ellir eu caffael fel arall). | Pob cyfleustod |
| Adran 35: Marchnadoedd dynamig: sefydlu | Mae adran 35(2) yn diffinio marchnad ddynamig cyfleustodau fel marchnad ddynamig a sefydlir at ddiben dyfarnu contractau cyfleustodau gan gyfleustodau yn unig. | Pob cyfleustod |
| | Mae adran 35 (3) yn darparu, os bydd unrhyw berson[1] yn sefydlu marchnad ddynamig cyfleustodau sy'n cydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf sy'n gymwys i farchnadoedd dynamig cyfleustodau a sefydlir gan gyfleustodau preifat, y dylid ei thrin fel marchnad ddynamig cyfleustodau a sefydlwyd gan gyfleustod preifat ac y gall cyfleustodau ei defnyddio i ddyfarnu contractau cyhoeddus sy'n gontractau cyfleustodau. | Dd/G, mae'r ddarpariaeth yn ymwneud ag unrhyw berson |
| | Mae adran 35(4) yn diffinio cyfleustod at ddibenion y Ddeddf fel awdurdod cyhoeddus, neu ymgymeriad cyhoeddus, sy'n cyflawni gweithgaredd cyfleustod; neu gyfleustod preifat. | Pob cyfleustod |

[1]Ystyr “unrhyw berson” yn y tabl hwn yw person nad yw'n gyfleustod ac sydd wedi sefydlu marchnad ddynamig cyfleustodau ac sy'n gweithredu marchnad o'r fath.

| Cyfeiriad deddfwriaethol | Darpariaethau penodol ynglŷn â chyfleustodau | Cyfleustod cymwys |
|---|---|---|
| | | |
| Adran 38: Marchnadoedd dynamig: ffioedd | Nid yw adran 38 (1) na (2) sy'n ymwneud â ffioedd yn gymwys i farchnadoedd dynamig cyfleustodau. | Ddim yn gymwys |
| | Dim ond i farchnadoedd dynamig cyfleustodau y mae adran 38 (3) yn gymwys. Mae'n darparu mai dim ond mewn cysylltiad â sicrhau a chynnal aelodaeth o'r farchnad y gellir codi ffioedd a nodir mewn dogfennau sy'n sefydlu marchnad ddynamig cyfleustodau ar gyflenwyr o dan farchnad ddynamig cyfleustodau. Mae'r ddarpariaeth hon, fel darpariaethau eraill sy'n ymwneud â marchnadoedd dynamig a sefydlir gan gyfleustodau preifat, yn un o ofynion marchnadoedd dynamig cyfleustodau a sefydlir gan unrhyw berson pan ddefnyddir y farchnad gan awdurdod contractio o dan y Ddeddf (adran 35 (3)). | Pob cyfleustod (gan gynnwys pan sefydlir marchnad ddynamig cyfleustodau gan unrhyw berson) |
| Adran 39: Hysbysiadau marchnad ddynamig | Mae adran 39 (6) yn darparu nad oes rhaid i gyfleustodau preifat gyhoeddi hysbysiad yn unol ag adran 39 (5) unwaith y bydd marchnad ddynamig wedi peidio â gweithredu. | Cyfleustodau preifat |
| Adran 40: Hysbysiadau marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol: dim dyletswydd i gyhoeddi hysbysiad tendro | Gellir sefydlu marchnadoedd dynamig cyfleustodau gan ddefnyddio'r canlynol:<br>• hysbysiad marchnad ddynamig, yn y ffordd arferol (gweler adran 39); neu<br>• hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol, gan ddefnyddio rheolau gwahanol ar gyfer hysbysiadau a esbonnir yn yr adran hon (adran 40). | Pob cyfleustod |
| | Mae adran 40 (1) yn darparu bod yn rhaid i awdurdod contractio sy'n caffael contract o dan farchnad ddynamig cyfleustodau a sefydlwyd gan ddefnyddio hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol, fel rhan o'r weithdrefn hyblyg gystadleuol, beidio â chyhoeddi hysbysiad tendro at ddiben gwahodd cyflenwyr i | Pob cyfleustod |

| Cyfeiriad deddfwriaethol | Darpariaethau penodol ynglŷn â chyfleustodau | Cyfleustod cymwys |
|---|---|---|
| | gyflwyno cais i gymryd rhan, neu, lle y bo'n berthnasol, dendr ar gyfer caffaeliad (gweler adran 21 (1) (Hysbysiadau tendro a dogfennau tendro cysylltiedig). | |
| | Mae adran 40 (2) yn darparu, pan fo'n rhaid i awdurdod contractio beidio â chyhoeddi hysbysiad tendro (h.y. pan fo adran 40 (1) yn gymwys), fod yn rhaid i'r awdurdod contractio hwnnw, yn lle hynny, ddarparu hysbysiad tendro i aelodau o'r farchnad ddynamig cyfleustodau neu ran briodol o'r farchnad. | Pob cyfleustod |
| | Mae adran 40 (3) yn rhoi disgresiwn i awdurdod contractio roi hysbysiad tendro i gyflenwyr sy'n dal i gael eu hystyried ar gyfer aelodaeth o'r farchnad ddynamig cyfleustodau, neu ran o'r farchnad. | Pob cyfleustod |
| | Mae adran 40 (4) yn ymgorffori hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol yn adran 21 (5) (Hysbysiadau tendro a dogfennau tendro cysylltiedig). Mae hyn yn golygu, yn achos marchnad ddynamig cyfleustodau a sefydlwyd drwy gyfeirio at hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol, fod yn rhaid i'r hysbysiad tendro a roddir i gyflenwyr, dogfennau tendro cysylltiedig neu hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol gynnwys y lefel ddigonol o wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 21 (5) er mwyn gwahodd cyflenwyr i gyflwyno tendr. | Pob cyfleustod |
| | Mae adran 40 (5) yn datgymhwyso'r gofyniad yn adran 34 (4) (Dyfarnu cystadleuol drwy gyfeirio at farchnadoedd dynamig), pan fo marchnad ddynamig wedi'i sefydlu drwy gyfeirio at hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol, i awdurdodau contractio ystyried ceisiadau am aelodaeth o farchnad ddynamig cyfleustodau, neu ran o farchnad, cyn | Pob cyfleustod |

| Cyfeiriad deddfwriaethol | Darpariaethau penodol ynglŷn â chyfleustodau | Cyfleustod cymwys |
|---|---|---|
| | gwahardd cyflenwyr neu ddiystyru tendrau am nad yw'r cyflenwr yn aelod o'r farchnad. | |
| | Mae adran 40 (6) yn diffinio hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol. Rhaid i'r hysbysiad hwn ymwneud â sefydlu marchnad ddynamig cyfleustodau a chynnwys yr wybodaeth a bennir yn adran 40 (6) (b) | Pob cyfleustod |
| | Mae adran 40 (7) yn darparu bod unrhyw gyfeiriadau at gyhoeddi hysbysiad tendro mewn rhannau eraill o'r Ddeddf yn cynnwys cyfeiriadau at ddarparu hysbysiad tendro fel y'i disgrifir yn adran 40 (2) a (3). | Pob cyfleustod |
| Adran 47: Fframweithiau: Cyfnod hwyaf | Mae adran 47 (1) yn nodi mai'r cyfnod hwyaf ar gyfer fframwaith cyfleustodau yw wyth mlynedd.<br><br>Mae adran 47 (2) yn darparu nad yw'r cyfyngiad yn gymwys os bydd yr awdurdod contractio o'r farn bod angen cyfnod hwy. Mae adran 47 (3) yn darparu bod yn rhaid i'r awdurdod contractio nodi ei resymau yn yr hysbysiad tendro neu'r hysbysiad tryloywder ar gyfer y fframwaith. | Awdurdodau cyhoeddus ac ymgymeriadau cyhoeddus |
| | Mae adran 47 (4) (b) yn diffinio fframwaith cyfleustodau fel fframwaith nad yw'n darparu ar gyfer dyfarnu contractau cyfleustodau yn y dyfodol heblaw contractau cyfleustodau. | Pob cyfleustod |
| | Mae adran 47 (5) (b) yn darparu nad yw'r cyfnod hwyaf ar gyfer fframweithiau a nodir yn adran 47 (1) yn gymwys i gyfleustodau preifat. | Cyfleustodau preifat |
| Adran 51: Cyfnodau segur o ran dyfarnu contractau | Mae adran 51 (3) (c) yn darparu nad yw'r gwaharddiad ar ymrwymo i gontract cyn diwedd cyfnod segur yn gymwys i gyfleustodau preifat pan ddyfernir contract o dan adran 41 (dyfarniad uniongyrchol) neu adran 43 (newid i ddyfarniad uniongyrchol). | Cyfleustodau preifat |

| Cyfeiriad deddfwriaethol | Darpariaethau penodol ynglŷn â chyfleustodau | Cyfleustod cymwys |
|---|---|---|
| Adran 52: Dangosyddion perfformiad allweddol | Mae adran 52(6)(b) yn darparu nad yw'r gofyniad i bennu a chyhoeddi dangosyddion perfformiad allweddol yn gymwys i gontractau cyfleustodau a ddyfernir gan gyfleustod preifat. | Cyfleustodau preifat |
| Adran 53: Hysbysiadau manylion contract a chyhoeddi contractau | Mae adran 53 (6) (a) yn darparu nad yw'r gofyniad i gyhoeddi hysbysiad manylion contract ar ôl i gontract gael ei ddyfarnu a, lle y bo'n berthnasol, gopi o'r contract, yn gymwys i gyfleustodau preifat (er bod yn rhaid i fanylion y contract sydd i'w ddyfarnu gael eu cynnwys yn yr hysbysiad dyfarnu contract o dan adran 50 cyn ymrwymo i'r contract). | Cyfleustodau preifat |
| Adran 54: Terfynau amser | Mae adran 54 (4) yn nodi mewn tablau y cyfnodau tendro lleiaf o dan amgylchiadau gwahanol. Ar gyfer cyfleustodau, mae'r hyblygrwydd canlynol yn gymwys:<br><br>• nid oes unrhyw gyfnod tendro lleiaf os yw'r contract sydd i'w ddyfarnu yn gontract cyfleustodau sy'n ddarostyngedig i 'gyfnod tendro a negodwyd';<br>• y cyfnod tendro lleiaf yw 10 diwrnod os yw'r contract sydd i'w ddyfarnu yn gontract cyfleustodau ac mai dim ond 'cyflenwyr a ddetholwyd ymlaen llaw' a gaiff gyflwyno tendrau<br><br>Effaith y ddwy ddarpariaeth hyn yw, os yw'r contract sydd i'w ddyfarnu yn gontract cyfleustodau ac mai dim ond cyflenwyr a ddetholwyd ymlaen llaw a gaiff gyflwyno tendrau, y caiff yr awdurdod contractio a'r cyflenwyr gytuno ar y cyfnod o amser neu, os na allant gytuno, mai'r cyfnod lleiaf yw 10 diwrnod. (Diffinnir 'cyfnod tendro, cyfnod tendro a negodwyd a chyflenwr a ddetholwyd ymlaen llaw' yn adran 54 (5)). | Pob cyfleustod |
| Adran 55: | Mae adran 55 (3) yn darparu nad yw'r gofyniad i gyhoeddi hysbysiad terfynu | Cyfleustodau preifat |

| Cyfeiriad deddfwriaethol | Darpariaethau penodol ynglŷn â chyfleustodau | Cyfleustod cymwys |
|---|---|---|
| Hysbysiadau terfynu caffaeliad | caffaeliad os bydd yn terfynu'r weithdrefn yn gymwys i gyfleustodau preifat. | |
| Adran 57: Ystyr cyflenwr gwaharddedig a gwaharddadwy | Mae adran 57 (4) yn darparu, ar gyfer cyfleustodau preifat, fod yn rhaid ystyried unrhyw gyfeiriad at gyflenwyr gwaharddedig fel cyfeiriad at gyflenwyr gwaharddadwy a bod unrhyw gyfeiriad yn y Ddeddf at gyflenwr gwaharddadwy yn cynnwys cyflenwr gwaharddedig. | Cyfleustodau preifat |
| Adran 68: Telerau talu ymhlyg mewn contractau cyhoeddus | Mae adran 68 (1) yn darparu nad yw'r telerau talu ymhlyg a nodir yn yr adran hon yn gymwys i gontractau cyfleustodau a ddyfernir gan gyfleustod preifat. | Cyfleustodau preifat |
| Adran 69: Hysbysiadau cydymffurfio taliadau | Mae adran 69 (6) (b) yn darparu nad yw hysbysiadau cydymffurfio taliadau yn gymwys i gyfleustodau preifat. | Cyfleustodau preifat |
| Adran 70: Gwybodaeth am daliadau o dan gontractau cyhoeddus | Mae adran 70 (4) (a) yn darparu nad yw'r gofyniad i gyhoeddi gwybodaeth benodedig am daliadau sy'n fwy na £30,000 o dan gontractau cyhoeddus yn gymwys i gontract cyhoeddus sy'n gontract cyfleustodau a ddyfernir gan gyfleustod preifat. | Cyfleustodau preifat |
| Adran 71: Asesiad o gyflawni contract | Mae adran 71 (7) yn nodi'n glir nad yw'r gofyniad i awdurdodau contractio gynnal asesiad o gyflawni contract yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol a nodir o dan adran 52 (1) a chyhoeddi gwybodaeth benodol yn gymwys i gyfleustodau preifat. | Cyfleustodau preifat |
| Adran 73: Telerau talu ymhlyg mewn is-gontractau | Mae adran 73 (6) (b) yn darparu nad yw'r telerau talu ymhlyg (sy'n ymwneud ag is-gontractau cyhoeddus) a nodir yn yr adran hon yn gymwys i is-gontract cyhoeddus ar gyfer cyflawni (neu gyfrannu at gyflawni) contract cyfleustodau cyfan a ddyfernir gan gyfleustod preifat neu ran o gontract o'r fath. | Cyfleustodau preifat |
| Adran 75: Hysbysiadau newid contract | Mae adran 75 (6) (c) yn darparu nad yw'r gofyniad i gyhoeddi hysbysiad newid contract cyn addasu contract cyhoeddus | Cyfleustodau preifat |

| Cyfeiriad deddfwriaethol | Darpariaethau penodol ynglŷn â chyfleustodau | Cyfleustod cymwys |
|---|---|---|
| | neu gontract trosadwy (gweler adran 74 (1)) yn gymwys i gyfleustod preifat. | |
| Adran 77: Cyhoeddi addasiadau | Mae adran 77 (2) (a) a'r diffiniad o addasiad cymhwysol yn golygu nad yw'r gofyniad i gyhoeddi copi o gontract a addaswyd neu'r addasiad perthnasol yn gymwys i gyfleustodau preifat (gan nad yw'n ofynnol i gyfleustodau preifat gyhoeddi hysbysiad newid contract o dan adran 75). | Cyfleustodau preifat |
| Adran 80: Hysbysiadau terfynu contract | Mae adran 80 (4) (a) yn darparu nad yw'r gofyniad i gyhoeddi hysbysiad terfynu contract pan derfynir contract yn gymwys i gyfleustodau preifat. | Cyfleustodau preifat |
| Adran 83: Asesiadau gwrthdaro | Nid yw adran 83 (7) yn esemptio cyfleustodau preifat rhag yr adran ond mae'n addasu rhai termau wrth gymhwyso'r termau hynny at gyfleustodau preifat, neu fel arall byddai'r adran yn cynnwys cyfeiriadau nad ydynt yn gymwys i gyfleustodau preifat. Er enghraifft, mae adran 83 (7) (b) yn darparu bod cyfeiriad at gyhoeddi hysbysiad terfynu yn gyfeiriad at derfynu'r contract. | Cyfleustodau preifat |
| Adran 93: Hysbysiadau piblinell | Mae adran 93 (6) yn darparu nad yw'n ofynnol i gyfleustodau preifat gyhoeddi hysbysiadau piblinell. | Cyfleustodau preifat |
| Adran 96: Cyfathrebu electronig | Mae adran 96 (3) (b) yn darparu nad yw'r gofyniad i ddefnyddio systemau cyfathrebu electronig i'r graddau y bo'n ymarferol, yn gymwys i gaffaeliadau a gynhelir o dan farchnad ddynamig cyfleustodau. | Pob cyfleustod |
| Adran 108: Ymchwiliadau caffael | Mae adran 108 (5) yn darparu nad yw cyfleustod preifat yn cael ei ystyried yn awdurdod contractio perthnasol at ddibenion yr adran hon ac, felly, nad yw'n agored i ymchwiliadau caffael o dan yr adran hon. (Rhaid i gyfleustodau preifat gydymffurfio ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan awdurdod priodol yn dilyn ymchwiliad caffael | Cyfleustodau preifat |

| Cyfeiriad deddfwriaethol | Darpariaethau penodol ynglŷn â chyfleustodau | Cyfleustod cymwys |
|---|---|---|
| | fel y darperir ar ei gyfer yn adran 110, yn amodol ar yr argymhelliad ei hun.) | |
| Adran 111: Gweinidogion Cymru: cyfyngiadau ar arfer pwerau | Mae adran 111 (2) yn darparu bod yn rhaid trin awdurdodau contractio sy'n ymgymeriadau cyhoeddus neu'n gyfleustodau preifat sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf mewn perthynas â Chymru, ac y mae eu gweithgareddau, yn gyfan gwbl neu'n bennaf, yn weithgareddau nad ydynt yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl, fel awdurdodau Cymreig datganoledig. | Ymgymeriadau cyhoeddus a chyfleustodau preifat |
| Adran 112: adran Gogledd Iwerddon: cyfyngiadau ar arfer pwerau | Mae adran 112 (3) yn darparu bod yn rhaid trin awdurdodau contractio sy'n ymgymeriadau cyhoeddus neu'n gyfleustodau preifat sy'n gweithredu yng Ngogledd Iwerddon neu mewn perthynas â Gogledd Iwerddon yn unig ac y mae eu gweithgareddau, yn gyfan gwbl neu'n bennaf, yn weithgareddau nad ydynt yn ymwneud â materion a eithrir neu a gedwir yn ôl, fel awdurdodau a drosglwyddwyd i Ogledd Iwerddon. | Ymgymeriadau cyhoeddus a chyfleustodau preifat |
| Adran 115: Pwerau sy'n ymwneud â threfniadau caffael | Mae adran 115 (4) (c) yn darparu bod ystyr deddfwriaeth gaffael yr Alban yn y Ddeddf yn cynnwys Rheoliadau Contractau Cyfleustodau (Yr Alban) 2016 (O.S.A. 2016/49). | Pob cyfleustod |
| Adran 119: Diddymiadau ac ati | Mae adran 119 (2) (b) yn darparu mai dim ond mewn perthynas ag awdurdodau Albanaidd datganoledig y mae Rheoliadau Contractau Cyfleustodau (Yr Alban) 2016 (O.S.A. 2016/49) yn gymwys. | Pob cyfleustod |
| Adran 121: Pŵer i ddiwygio'r Ddeddf hon mewn perthynas â chyfleustodau preifat | Mae adran 121 (1) yn darparu pŵer i awdurdod priodol wneud rheoliadau i gwtogi ar reoleiddio cyfleustodau preifat o dan y Ddeddf. | Cyfleustodau preifat |

| Cyfeiriad deddfwriaethol | Darpariaethau penodol ynglŷn â chyfleustodau | Cyfleustod cymwys |
|---|---|---|
| | Mae adran 121 (2) yn darparu rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o'r hyn y gall rheoliadau ei wneud, er enghraifft gofynion datgymhwyso; neu ofynion addasu er mwyn lleihau baich penodol neu'r baich cyffredinol. | Cyfleustodau preifat |
| | Mae adran 121 (3) yn darparu bod yn rhaid i awdurdod priodol ymgynghori â phersonau penodol cyn gwneud rheoliadau. | Cyfleustodau preifat |
| | Mae adran 121 (4) yn rhoi rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o ddarpariaethau y gellid ystyried eu bod yn 'faich', megis y rhai sy'n arwain at golled ariannol, anghyfleustra gweinyddol neu rwystrau i broffidioldeb, cynhyrchiant neu effeithlonrwydd. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr. | Cyfleustodau preifat |
| Adran 124: Mynegai o ymadroddion wedi eu diffinio | Mae'r adran hon yn darparu tabl sy'n croesgyfeirio ymadroddion a ddefnyddir mewn rhannau eraill o'r Ddeddf at y darpariaethau perthnasol lle y'u diffinnir, gan gynnwys y termau cyfleustod preifat, ymgymeriad cyhoeddus, contract cyfleustodau, marchnad ddynamig cyfleustodau, cyfleustod a gweithgaredd cyfleustod. | Pob cyfleustod |
| Atodlen 1, paragraff 1: Symiau trothwyon (fel y maent i'w diweddaru gan y Rheoliadau Caffael (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (sydd i'w gosod gerbron Senedd Cymru ym mis Medi) | Mae'r trothwyon ar gyfer cyfleustodau fel a ganlyn:<br>Contract cyfleustodau nad yw'n gontract gweithiau nac yn gontract cyffyrddiad ysgafn e.e. contract nwyddau neu wasanaeth (Rhes 6): £429,809;<br>Contract cyfleustodau sy'n gontract gweithiau (Rhes 4): £5,372,609;<br>Contract cyfleustodau sy'n gontract cyffyrddiad ysgafn (Rhes 5): £884,720. | Pob cyfleustod |

| Cyfeiriad deddfwriaethol | Darpariaethau penodol ynglŷn â chyfleustodau | Cyfleustod cymwys |
|---|---|---|
| Atodlen 1, paragraff 5: Symiau trothwyon | Mae atodlen 1, paragraff 5 (1) (b) yn esemptio cyfleustodau preifat neu ymgymeriadau cyhoeddus rhag y diffiniad o awdurdod islaw'r llywodraeth ganolog. | Pob cyfleustod |
| Atodlen 2, paragraffau 2-3: Contractau esempt | Trefniadau fertigol<br><br>Mae paragraff 2 (8) yn darparu nad yw'r esemptiad ynglŷn â threfniadau fertigol yn y paragraff hwn yn gymwys i ymgymeriadau cyhoeddus na chyfleustodau preifat. Yn lle hynny, caiff ymgymeriad cyhoeddus neu gyfleustod preifat ddefnyddio'r esemptiad ym mharagraff 6 o'r Atodlen hon, lle y bo'n berthnasol (sy'n gymwys i bob cyfleustod). | Awdurdodau cyhoeddus |
| | Trefniadau llorweddol<br><br>Mae paragraff 3 (4) yn darparu nad yw'r esemptiad ynglŷn â threfniadau llorweddol yn gymwys i ymgymeriadau cyhoeddus na chyfleustodau preifat. Yn lle hynny, caiff ymgymeriad cyhoeddus neu gyfleustod preifat ddefnyddio'r esemptiad ym mharagraff 6 o'r Atodlen hon, lle y bo'n berthnasol (sy'n gymwys i bob cyfleustod). | Awdurdodau cyhoeddus |
| Atodlen 2, paragraffau 5-6: Contractau esempt | Contractau cyfleustodau (contractau esempt â chyd-barti)<br>Mae paragraff 5(1) yn esemptio contractau cyfleustodau a ddyfernir gan 'gyd-fenter berthnasol' i un o aelodau'r gyd-fenter, a gan aelod o gyd-fenter i'r gyd-fenter berthnasol. Caiff cyd-fenter berthnasol ei ffurfio at ddibenion cyflawni gweithgaredd cyfleustod ac mae'n ymrwymedig i wneud hynny am gyfnod o dair blynedd o leiaf. At hynny, rhaid i'r cyfleustodau sy'n ffurfio'r gyd-fenter barhau i fod yn aelodau o'r gyd-fenter am dair blynedd o leiaf ar ôl dyddiad y cytundeb. | Pob cyfleustod |
| | Mae paragraff 5 (2) yn diffinio cyd-fenter berthnasol, a ddefnyddir ym mharagraffau 5 | Pob cyfleustod |

| Cyfeiriad deddfwriaethol | Darpariaethau penodol ynglŷn â chyfleustodau | Cyfleustod cymwys |
|---|---|---|
| | (1) a (2) a 6 (1) o'r Atodlen hon. Mae cyd-fenter berthnasol yn gyd-fenter a ffurfiwyd at ddibenion cyflawni gweithgaredd cyfleustod ac sy'n cynnwys cyfleustodau yn unig. | |
| | Mae paragraff 6 (1) yn esemptio contractau cyfleustodau a ddyfernir:<br>• gan gyfleustod i berson sy'n ymgysylltiedig â'r cyfleustod; a<br>• gan gyfleustod sy'n gyd-fenter berthnasol i berson sy'n ymgysylltiedig ag unrhyw aelod o'r gyd-fenter, ar yr amod y bodlonir y prawf trosiant wrth ystyried y person ymgysylltiedig. | Pob cyfleustod |
| | Mae paragraff 6 (2) yn esbonio, drwy gyfeirio at Ddeddf Cwmnïau 2006, beth mae'n ei olygu os yw person yn ymgysylltiedig â pherson arall. Mae person yn ymgysylltiedig â pherson arall os yw'r person mewn ymgymeriad grŵp, fel y'i diffiniwyd yn adran 1161 (5) o'r Ddeddf honno, â'r person hwnnw. Mae paragraff 6 (2) yn darparu y byddai hyn yn wir hyd yn oed pe na bai un ohonynt yn ymgymeriad fel y'i diffiniwyd yn adran 1161 (1) o'r Ddeddf honno: er enghraifft, pan nad yw un ohonynt yn gwmni cyfyngedig. | Pob cyfleustod |
| | Mae paragraffau 6 (3) a (5) yn darparu, er mwyn i'r esemptiad fod yn gymwys, fod yn rhaid bodloni'r prawf trosiant, gyda manylion pellach i'w nodi mewn rheoliadau. | Pob cyfleustod |
| Atodlen 2, paragraff 21: Contractau esempt | <u>Gwasanaethau cludo teithwyr cyhoeddus (contract esempt ar sail testun)</u><br><br>Mae paragraff 21 yn esemptio contractau a ddyfernir o dan reoliadau rhwymedigaethau gwasanaethau cyhoeddus a ddiffinnir yn adran 136(11) o Ddeddf Rheilffyrdd 1993. Mae'r ddarpariaeth hon yn gweithredu i esemptio gwasanaethau cludo teithwyr cyhoeddus penodol rhag y Ddeddf. | Pob cyfleustod |

| Cyfeiriad deddfwriaethol | Darpariaethau penodol ynglŷn â chyfleustodau | Cyfleustod cymwys |
|---|---|---|
| Atodlen 2, paragraffau 31-34: Contractau esempt | Contractau cyfleustodau (contractau esempt ar sail testun)<br><br>Mae paragraff 31 yn esemptio contractau cyfleustodau a ddyfernir at ddibenion gwerthu neu brydlesu ymhellach i drydydd partïon, ar yr amod nad oes gan y cyfleustod hawl arbennig na llwyr-gyfyngedig (fel y'i diffiniwyd yn adran 6(3)) i werthu neu brydlesu'r nwyddau, y gwasanaethau na'r gweithiau a brynwyd a bod y farchnad yn agored. Nid yw'r esemptiad hwn ar gael pan fo'r cyfleustod sy'n dyfarnu'r contract yn gweithredu fel awdurdod prynu canolog. | Pob cyfleustod |
| | Mae paragraff 32 yn esemptio contractau cyfleustodau i brynu dŵr a ddyfernir gan gyfleustodau sy'n cyflawni gweithgaredd cyfleustod yn Atodlen 4, paragraff 3(1)(a) neu (b). | Pob cyfleustod |
| | Mae paragraff 33 yn esemptio contractau cyfleustodau i brynu ynni, neu danwydd i gynhyrchu ynni, a ddyfernir gan gyfleustodau sy'n cyflawni gweithgaredd cyfleustod yn Atodlen 4, paragraffau 1, 2 neu 6 (nwy a gwres, trydan ac echdynnu olew a nwy a chwilio am lo neu danwyddau solet eraill neu ei echdynnu/eu hechdynnu. Dim ond i ynni neu danwydd a brynir i gynhyrchu ynni y mae'r esemptiad yn gymwys ac nid yw'n gymwys i ynni na thanwydd a brynir am resymau eraill, e.e. prynu tanwydd at ddibenion trafnidiaeth nad ydynt yn ymwneud â'r gweithgaredd cyfleustod. | Pob cyfleustod |
| | Mae paragraff 34 yn esemptio contractau at ddibenion y gweithgareddau a nodwyd yn Rhan 2 o Atodlen 4, a fyddai'n weithgareddau cyfleustod pe na baent wedi eu nodi yn Rhan 2. | Pob cyfleustod |

| Cyfeiriad deddfwriaethol | Darpariaethau penodol ynglŷn â chyfleustodau | Cyfleustod cymwys |
|---|---|---|
| Atodlen 2, paragraff 35-37: Contractau esempt | <u>Contractau consesiwn (contractau esempt ar sail testun)</u> | |
| | Mae paragraff 35 yn esemptio contractau consesiwn ar gyfer gweithgareddau cyfleustod sy'n ymwneud â gwasanaethau dŵr a ddisgrifiwyd yn Atodlen 4, paragraff 3(1) neu (2). | Pob cyfleustod |
| | Mae paragraff 36 yn esemptio contractau consesiwn ar gyfer gwasanaethau hedfan rheolaidd am gyfnodau penodedig yn y DU neu yn y DU a Gibraltar ac sy'n cael eu gweithredu o dan drwydded lwyr-gyfyngedig ac sy'n ddarostyngedig i ofynion gwasanaeth sylfaenol. Gelwir y contractau hyn yn rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus cyfyngedig ac maent yn cael eu rheoleiddio ar wahân o dan Reoliad 1008/2008.<br><br>O dan y rheoliad hwn, gall yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth osod rhwymedigaeth gwasanaeth cyhoeddus mewn perthynas â gwasanaethau hedfan rheolaidd rhwng maes awyr yn y DU a maes awyr sy'n gwasanaethu rhanbarth ymylol neu ranbarth datblygu yn y DU neu ar lwybr a ystyrir yn hollbwysig i ddatblygiad economaidd a chymdeithasol y rhanbarth. Pan fydd rhwymedigaeth gwasanaeth cyhoeddus wedi cael ei gosod, caniateir i unrhyw gwmni hedfan cymwys ddechrau gwasanaethau hedfan rheolaidd sy'n bodloni'r holl ofynion yn y rhwymedigaeth gwasanaeth cyhoeddus. Gelwir hon yn rhwymedigaeth gwasanaeth cyhoeddus ‘agored’ ac nid yw'n golygu dyfarnu contract.<br><br>Os nad oes unrhyw gwmni hedfan cymwys wedi dechrau neu os na all ddangos ei fod ar fin dechrau gwasanaethau hedfan rheolaidd cynaliadwy ar lwybr dan sylw yn unol â'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyhoeddus, yna gall yr Ysgrifennydd | Pob cyfleustod |

| Cyfeiriad deddfwriaethol | Darpariaethau penodol ynglŷn â chyfleustodau | Cyfleustod cymwys |
|---|---|---|
| | Gwladol gyfyngu mynediad i'r gwasanaethau hedfan rheolaidd i un cwmni hedfan cymwys am gyfnod o hyd at bedair blynedd. Gelwir hon yn rhwymedigaeth gwasanaeth cyhoeddus 'gyfyngedig'.<br><br>Mae'n rhaid i'r hawl i gynnig y gwasanaethau ar gyfer rhwymedigaeth gwasanaeth cyhoeddus gyfyngedig gael ei chynnig drwy dendr cyhoeddus o dan Reoliad 1008/2008. Mae'r esemptiad ym mharagraff 36 yn cwmpasu contractau consesiwn ar gyfer rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus cyfyngedig. | |
| | Mae paragraff 37 yn esemptio contractau consesiwn i ddarparu gwasanaethau cludo teithwyr cyhoeddus. | Pob cyfleustod |
| Atodlen 4, paragraff 1: Gweithgareddau cyfleustod: nwy a gwres | Mae paragraff 1 yn nodi pryd mae gweithgareddau sy'n gysylltiedig â nwy a gwres yn weithgareddau cyfleustod. | Pob cyfleustod |
| | Mae paragraff 1 (1) yn darparu bod darparu neu weithredu rhwydweithiau sefydlog y bwriedir iddynt ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd mewn cysylltiad â chynhyrchu, cludo neu ddosbarthu nwy neu wres a chyflenwi nwy neu wres i rwydweithiau o'r fath, yn weithgareddau cyfleustod. | Pob cyfleustod |
| | Mae paragraff 1 (2) yn nodi'r amgylchiadau pan nad ystyrir bod cyflenwi nwy neu wres i rwydwaith yn weithgaredd cyfleustod, y mae'n rhaid i bob un ohonynt gael eu bodloni er mwyn i'r esemptiad fod yn gymwys.<br><br>Yr amgylchiadau hyn yw: bod y gweithredwr (h.y. y cyflenwr nwy neu wres) yn gyfleustod preifat neu'n ymgymeriad cyhoeddus; bod y gweithredwr yn cynhyrchu'r nwy neu'r gwres fel sgil-gynnyrch na ellir ei osgoi wrth | Ymgymeriadau cyhoeddus a chyfleustodau preifat |

| Cyfeiriad deddfwriaethol | Darpariaethau penodol ynglŷn â chyfleustodau | Cyfleustod cymwys |
|---|---|---|
| | gyflawni gweithgaredd nad yw'n weithgaredd penodedig; ac nad yw'r nwy/gwres a gyflenwir i'r rhwydwaith yn cyfateb i fwy nag 20% o gyfanswm trosiant y gweithredwr. Nodir y diffiniad o weithgareddau penodedig (y cyfeirir atynt yn y paragraff hwn ac ym mharagraffau 2 a 3) ym mharagraff 7 o'r Atodlen hon. | |
| | Mae paragraff 1 (3) a (4) yn darparu y caiff awdurdod priodol wneud rheoliadau sy'n nodi sut i gyfrifo'r swm y cyfeirir ato ym mharagraff 1 (2) (c) ac yn rhoi rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o ddarpariaethau y gellir eu cynnwys yn y rheoliadau hynny. | Dd/G |
| Atodlen 4, paragraff 2: Gweithgareddau cyfleustod: trydan | Mae paragraff 2 yn nodi pryd mae gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thrydan yn weithgareddau cyfleustod. | Pob cyfleustod |
| | Mae paragraff 2 (1) yn darparu bod darparu neu weithredu rhwydweithiau sefydlog y bwriedir iddynt ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd mewn cysylltiad â chynhyrchu, cludo neu ddosbarthu trydan a chyflenwi trydan i rwydweithiau o'r fath, yn weithgareddau cyfleustod. | Pob cyfleustod |
| | Mae paragraff 2 (2) yn nodi'r amgylchiadau pan nad ystyrir bod cyflenwi trydan i rwydwaith yn weithgaredd cyfleustod, y mae'n rhaid i bob un ohonynt gael eu bodloni er mwyn i'r esemptiad fod yn gymwys. Yr amgylchiadau hyn yw: bod y gweithredwr (h.y. y cyflenwr trydan) yn gyfleustod preifat neu'n ymgymeriad cyhoeddus; bod y gweithredwr yn cynhyrchu trydan am fod angen y trydan arno i wneud rhywbeth heblaw gweithgaredd penodedig; dim ond yr hyn sydd dros ben o weithgarwch cynhyrchu o'r fath nad yw'r gweithredwr wedi'i ddefnyddio ei hun yw'r | Ymgymeriadau cyhoeddus a chyfleustodau preifat |

| Cyfeiriad deddfwriaethol | Darpariaethau penodol ynglŷn â chyfleustodau | Cyfleustod cymwys |
|---|---|---|
| | trydan a gyflenwir; ac nad yw'r trydan a gyflenwir yn cyfateb i fwy na 30% o'r holl ynni a gynhyrchir gan y gweithredwr. | |
| | Mae paragraff 2 (3) a (4) yn darparu y caiff awdurdod priodol wneud rheoliadau sy'n nodi sut i gyfrifo'r swm y cyfeirir ato ym mharagraff 2 (2) (d) ac yn rhoi rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o ddarpariaethau y gellir eu cynnwys yn y rheoliadau hynny. | Dd/G |
| Atodlen 4, paragraff 3: Gweithgareddau cyfleustod: dŵr | Mae paragraff 3 yn nodi pryd y mae gweithgareddau sy'n gysylltiedig â dŵr yn weithgareddau cyfleustod. | Pob cyfleustod |
| | Mae paragraff 3 (1) yn darparu bod darparu neu weithredu rhwydweithiau sefydlog y bwriedir iddynt ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd mewn cysylltiad â chynhyrchu, cludo neu ddosbarthu dŵr yfed a chyflenwi dŵr yfed i rwydweithiau o'r fath, yn weithgareddau cyfleustod. | Pob cyfleustod |
| | Mae paragraff 3 (2) yn nodi rhagor o weithgareddau sydd hefyd yn weithgareddau cyfleustod, i'r graddau y maent yn cael eu cyflawni gan berson sydd hefyd yn cyflawni'r gweithgareddau y cyfeirir atynt ym mharagraff 3 (1). Y gweithgareddau hyn yw: unrhyw weithgaredd sy'n gysylltiedig â phrosiect peirianneg hydrolig, dyfrhau neu ddraenio tir, ar yr amod y bodlonir yr amod ym mharagraff 3 (3); ac unrhyw weithgaredd sy'n gysylltiedig â gwaredu neu drin carthion. | Pob cyfleustod |
| | Mae paragraff 3 (3) yn nodi'r amod y cyfeirir ato ym mharagraff 3 (2), sef bod yn rhaid i berson sy'n cyflawni'r gweithgaredd ddisgwyl yn rhesymol y bydd mwy nag 20% o'r holl ddŵr a ddarperir o dan baragraff 3 | Pob cyfleustod |

| Cyfeiriad deddfwriaethol | Darpariaethau penodol ynglŷn â chyfleustodau | Cyfleustod cymwys |
|---|---|---|
| | (2) yn cael ei gyflenwi fel dŵr yfed i rwydwaith ym mharagraff 3 (1). | |
| | Mae paragraff 3 (4) yn nodi'r amgylchiadau pan nad ystyrir bod cyflenwi dŵr yfed yn weithgaredd cyfleustod, y mae'n rhaid i bob un ohonynt gael eu bodloni er mwyn i'r esemptiad fod yn gymwys. Yr amgylchiadau hyn yw: bod y gweithredwr (h.y. y cyflenwr dŵr yfed) yn gyfleustod preifat neu'n ymgymeriad cyhoeddus; bod y gweithredwr yn cynhyrchu dŵr yfed am fod angen y dŵr yfed arno i wneud rhywbeth heblaw gweithgaredd penodedig; dim ond yr hyn sydd dros ben o weithgarwch cynhyrchu o'r fath nad yw'r gweithredwr wedi'i ddefnyddio ei hun yw'r dŵr yfed a gyflenwir; ac nad yw'r dŵr yfed a gyflenwir yn cyfateb i fwy na 30% o'r holl ddŵr yfed a gynhyrchir gan y gweithredwr. | Ymgymeriadau cyhoeddus a chyfleustodau preifat |
| | Mae paragraffau (5) a (6) yn darparu y caiff awdurdod priodol wneud rheoliadau sy'n nodi sut i gyfrifo'r swm y cyfeirir ato ym mharagraff 4 (d) ac yn rhoi rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o ddarpariaethau y gellir eu cynnwys yn y rheoliadau hynny. | Dd/G |
| Atodlen 4, paragraff 4: Gweithgareddau cyfleustod: Trafnidiaeth | Mae paragraff 4 yn nodi pryd y mae gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth yn weithgareddau cyfleustod ac yn darparu bod darparu neu weithredu rhwydwaith sy'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd ar gyfer trafnidiaeth yn weithgaredd cyfleustod. Gellir darparu rhwydwaith o'r fath drwy unrhyw fodd, megis ar reilffyrdd, ar dramffyrdd neu ar fysiau. | Pob cyfleustod |
| Atodlen 4, paragraff 5: Gweithgareddau cyfleustod: Porthladdoedd a meysydd awyr | Mae paragraff 5 yn nodi pryd y mae gweithgareddau sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd a meysydd awyr yn weithgareddau cyfleustod. | Pob cyfleustod |

| Cyfeiriad deddfwriaethol | Darpariaethau penodol ynglŷn â chyfleustodau | Cyfleustod cymwys |
|---|---|---|
| | | |
| | Mae paragraff 5 (1) yn nodi bod gweithgaredd sy'n ymwneud ag ymelwa ar ardal ddaearyddol at ddibenion penodol yn weithgaredd cyfleustod sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd a meysydd awyr. Y dibenion hyn yw – darparu maes awyr i gludwyr teithwyr neu nwyddau mewn awyrennau; a darparu porthladd neu gyfleusterau terfynfa eraill i gludwyr teithwyr neu nwyddau ar y môr neu ddyfrffordd fewndirol. | Pob cyfleustod |
| | Mae paragraff 5 (2) yn diffinio maes awyr drwy gyfeirio at adran 66 o Ddeddf Hedfan Sifil 2012. | Pob cyfleustod |
| Atodlen 4, paragraff 6: Gweithgareddau cyfleustod: Echdynnu olew a nwy a chwilio am lo neu danwyddau solet eraill neu ei echdynnu/eu hechdynnu | Mae paragraff 6 yn darparu bod gweithgareddau sy'n ymwneud ag ymelwa ar ardal ddaearyddol i echdynnu olew a nwy a chwilio am lo neu danwyddau solet eraill neu ei echdynnu/eu hechdynnu, yn weithgareddau cyfleustod. | Pob cyfleustod |
| Atodlen 4, paragraff 7: Gweithgareddau cyfleustod: dehongli'r Atodlen | Mae paragraff 7 yn nodi'r diffiniadau o weithgaredd penodedig a chyflenwi a ddefnyddir yn y rhan hon o'r Atodlen | Pob cyfleustod |
| Atodlen 4, paragraffau 8-17: Gweithgareddau cyfleustod: Gweithgareddau nad ydynt yn | Mae rhan 2 o'r Atodlen hon yn pennu'r gweithgareddau nad ydynt yn weithgareddau cyfleustod ac, felly, nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan y Ddeddf. Mae'r esemptiadau hyn yn adlewyrchu'r esemptiadau a nodwyd mewn tri o Benderfyniadau Comisiwn yr UE (2006/211/EC, 2007/141/EC a | Pob cyfleustod |

| Cyfeiriad deddfwriaethol | Darpariaethau penodol ynglŷn â chyfleustodau | Cyfleustod cymwys |
|---|---|---|
| weithgareddau cyfleustod | 2010/192/EU). Mae'r pŵer yn adran 6 (5) o'r Ddeddf yn caniatáu i awdurdod priodol wneud rheoliadau i ddiwygio Rhan 2. | |
| Atodlen 8, paragraff 4: Addasiadau a ganiateir i gontract | <u>Amgylchiadau anrhagweladwy</u><br><br>Mae paragraff 4 (2) yn darparu nad yw'r trothwy o 50% ar gyfer addasu contractau pan fo'r sail amgylchiadau anrhagweladwy dros addasiadau a ganiateir yn gymwys, yn gymwys i gontractau cyfleustodau. | Pob cyfleustod |
| Atodlen 8, paragraff 5: Addasiadau a ganiateir i gontract | <u>Gwireddiad risg hysbys</u><br><br>Mae paragraff 5 (2) yn darparu nad yw'r trothwy o 50% ar gyfer addasu contractau pan fo'r sail gwireddiad risg hysbys dros addasiadau a ganiateir yn gymwys, yn gymwys i gontractau cyfleustodau. | Pob cyfleustod |
| Atodlen 8, paragraff 8: Addasiadau a ganiateir i gontract | <u>Nwyddau, gwasanaethau neu weithiau ychwanegol</u><br><br>Mae paragraff 8 (2) yn darparu nad yw'r trothwy o 50% ar gyfer addasu contractau pan fo'r sail nwyddau, gwasanaethau neu weithiau ychwanegol dros addasiadau a ganiateir yn gymwys, yn gymwys i gontractau cyfleustodau. | Pob cyfleustod |
| Atodlen 11, Paragraff 7: diddymiadau a dirymiadau | Mae paragraff 7 yn diddymu Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016 (O.S. 2016/274). | Dd/G |

## Ychwanegiad at Atodiad A: Crynodeb o reolau penodol yn Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024

| Rheoliad | Rheolau penodol ynglŷn â chyfleustodau yn Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 | Mathau cymwys o gyfleustodau |
|---|---|---|
| Rheoliad 5: Cyhoeddi hysbysiadau ar y platfform digidol canolog | Mae rheoliad 5 yn nodi pryd y mae'n rhaid cyhoeddi hysbysiad ar y platfform digidol canolog. Mae'r rhestr o ddarpariaethau y cyfeirir atynt pan fo'n rhaid cyhoeddi hysbysiadau ar y platfform yn cynnwys hysbysiadau o dan adran 39 (2) o'r Rheoliadau (hysbysiadau marchnad ddynamig: bwriad i sefydlu marchnad ddynamig), sy'n cynnwys hysbysiadau marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol (yn rhinwedd adran 40 (6) o'r Ddeddf). | Pob cyfleustod |
| Rheoliad 8: Gwybodaeth graidd y cyflenwr: platfform ddim yn gweithio, sefyllfa frys, cyfleustodau preifat | Mae rheoliad 8 yn nodi esemptiad rhag rheoliad 6 (rhannu gwybodaeth graidd y cyflenwr drwy'r platfform digidol canolog) ar gyfer cyfleustodau preifat yn achos contract cyhoeddus a ddyfernir yn uniongyrchol yn unol â pharagraffau 13 a 14 o Atodlen 5 i'r Ddeddf (sefyllfa frys). | Cyfleustodau preifat |
| Rheoliadau 19-22: Hysbysiadau Tendro | Mae rheoliadau 19-22 yn nodi cynnwys yr hysbysiadau tendro ar gyfer y weithdrefn agored, y weithdrefn hyblyg gystadleuol, fframweithiau, a marchnadoedd dynamig (ac eithrio marchnadoedd dynamig cyfleustodau cymhwysol). | Pob cyfleustod |
| Rheoliad 19: Hysbysiadau tendro: gweithdrefn agored | Mae rheoliad 19 yn cynnwys darpariaethau arbennig ar gyfer cyfleustodau fel a ganlyn:<br>• rheoliad 19 (2) (e): gofyniad i nodi bod y contract yn gontract cyfleustodau yn yr hysbysiad tendro;<br>• rheoliad 19 (2) (q): esemptiad i gyfleustodau rhag gorfod rhoi rheswm dros beidio â rhannu'r contract yn lotiau. | Pob cyfleustod |
| Rheoliad 20: Hysbysiadau tendro: gweithdrefn | Mae rheoliadau 20-22, drwy raeadru'r gofynion i gynnwys yr wybodaeth yn rheoliad 19 (2), i bob pwrpas, yn creu darpariaethau tebyg sydd hefyd yn gymwys i | |

| Rheoliad | Rheolau penodol ynglŷn â chyfleustodau yn Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 | Mathau cymwys o gyfleustodau |
|---|---|---|
| hyblyg gystadleuol<br><br>Rheoliad 21: Hysbysiadau tendro: fframweithiau<br><br>Rheoliad 22: Hysbysiadau tendro: marchnadoedd dynamig ac eithrio marchnadoedd dynamig cyfleustodau cymhwysol | hysbysiadau tendro ar gyfer y weithdrefn hyblyg gystadleuol, fframweithiau a marchnadoedd dynamig (ac eithrio marchnadoedd dynamig cyfleustodau cymhwysol). | |
| Rheoliad 23: Hysbysiadau tendro: hysbysiadau marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol | Mae rheoliad 23 yn nodi cynnwys yr hysbysiadau tendro pan fônt yn ymwneud â chaffaeliadau a gyflawnir o dan farchnad ddynamig cyfleustodau a sefydlwyd drwy hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau – h.y. pan ddarperir hysbysiadau tendro i aelodau o'r farchnad, yn hytrach na'u cyhoeddi.<br><br>Rhaid i'r hysbysiad hwn gynnwys yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys yn yr hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol y mae a wnelo'r hysbysiad tendro ag ef os nad yw'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys (fel y'i caniatawyd gan reoliad 26 (2) (ii)) yn yr hysbysiad hwnnw. Gyda'i gilydd, rhaid i hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol a'r hysbysiad tendro perthnasol a'r dogfennau tendro cysylltiedig ddarparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar gyflenwyr er mwyn iddynt allu paratoi tendr (adrannau 21 (5) a 40 (4) o'r Ddeddf). | Pob cyfleustod |

| Rheoliad | Rheolau penodol ynglŷn â chyfleustodau yn Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 | Mathau cymwys o gyfleustodau |
|---|---|---|
| Rheoliad 26: Hysbysiadau marchnad ddynamig (gan gynnwys hysbysiadau marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol) | Mae rheoliad 26 yn nodi'r manylion y mae'n rhaid i'r hysbysiad sy'n sefydlu marchnad ddynamig cyfleustodau, gan gynnwys marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol, eu cynnwys, gan gynnwys yr wybodaeth ychwanegol y mae'n rhaid i'r hysbysiad ei chynnwys os yw'n hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol (gweler rheoliad 25 (2) (h) (ii)). | Pob cyfleustod, a thrydydd personau |
| Rheoliad 27: Hysbysiadau tryloywder | Mae rheoliad 27 yn nodi'r manylion y mae'r hysbysiad tryloywder, y mae'n ofynnol i awdurdod contractio ei gyhoeddi, fel arfer, cyn dyfarnu contract yn uniongyrchol o dan adrannau 41 neu 43 o'r Ddeddf, eu cynnwys. Mae rheoliad 27 (2) (g) yn nodi gofyniad i nodi bod y contract yn gontract cyfleustodau yn yr hysbysiad tryloywder. | Pob cyfleustod |
| Rheoliad 28: Hysbysiadau dyfarnu contract ac eithrio'r rhai a gyhoeddir gan gyfleustodau preifat | Mae rheoliad 28 yn nodi'r wybodaeth sy'n ofynnol yn yr hysbysiad dyfarnu contract, a gyhoeddir cyn i awdurdod contractio ymrwymo i gontract â chyflenwr neu gyflenwyr penodedig. Mae rheoliad 28 (2) (k) yn nodi gofyniad i nodi bod y contract yn gontract cyfleustodau yn yr hysbysiad dyfarnu contract.<br><br>Mae rheoliad 28 (8) yn nodi nad yw rheoliad 28 yn gymwys i gontract cyfleustodau a ddyfernir gan gyfleustod preifat. | Awdurdodau cyhoeddus ac ymgymeriadau cyhoeddus<br><br>Cyfleustodau preifat |
| Rheoliad 29: Hysbysiadau dyfarnu contract a gyhoeddir gan gyfleustodau preifat<br><br>Rheoliad 30: Hysbysiadau dyfarnu contract a gyhoeddir gan gyfleustodau | Mae rheoliadau 29-31 yn nodi cynnwys yr hysbysiadau dyfarnu contract a gyhoeddir gan gyfleustodau preifat, sy'n adlewyrchu'r awydd i leihau beichiau ar gyfleustodau preifat. Gan nad yw'n ofynnol i gyfleustodau preifat gyhoeddi hysbysiad manylion contract ar ôl i gontract gael ei ddyfarnu, defnyddir yr hysbysiad dyfarnu contract i gofnodi gwybodaeth benodol sy'n ymwneud â'r contract sydd i'w ddyfarnu. | Cyfleustodau preifat |

| **Rheoliad** | **Rheolau penodol ynglŷn â chyfleustodau yn Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024** | **Mathau cymwys o gyfleustodau** |
|---|---|---|
| preifat: dyfarniadau uniongyrchol<br><br>Rheoliad 31: Hysbysiadau dyfarnu contract a gyhoeddir gan gyfleustodau preifat: fframweithiau | | |
| Rheoliad 33: Hysbysiadau manylion contract: gweithdrefn agored neu weithdrefn hyblyg gystadleuol<br><br>Rheoliad 34: Hysbysiadau manylion contract: fframweithiau<br><br>Rheoliad 35: Hysbysiadau manylion contract: contractau cyhoeddus a ddyfernir yn unol â fframweithiau<br><br>Rheoliad 36: Hysbysiadau manylion contract: dyfarniad uniongyrchol | Mae rheoliadau 33-36 yn nodi'r wybodaeth sy'n ofynnol yn yr hysbysiad manylion contract, a gyhoeddir ar ôl i awdurdod contractio ymrwymo i gontract.<br><br>Mae rheoliad 33 (2) (o) yn nodi gofyniad i nodi bod y contract yn gontract cyfleustodau yn yr hysbysiad manylion contract ar gyfer gweithdrefn agored neu weithdrefn hyblyg gystadleuol.<br><br>Mae rheoliadau 34-36, drwy raeadru cyfeiriadau at y rhannau perthnasol o reoliad 33 (2), yn estyn y gofyniad hwn i gynnwys hysbysiadau manylion contract ar gyfer fframweithiau, contractau cyhoeddus a ddyfernir yn unol â fframweithiau, a chontractau a ddyfernir yn uniongyrchol. | Awdurdodau cyhoeddus ac ymgymeriadau cyhoeddus |

| Rheoliad | Rheolau penodol ynglŷn â chyfleustodau yn Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 | Mathau cymwys o gyfleustodau |
|---|---|---|
| Rheoliad 49: Ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad mewn perthynas â chyfleustodau preifat | Mae rheoliad 49 yn darparu, wrth arfer y pŵer yn adran 121 o'r Ddeddf, nad yw'r gofyniad yn adran 17 o'r Ddeddf i gyhoeddi hysbysiad ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad yn gymwys i gyfleustodau preifat, heblaw i gyfleustod preifat sy'n awdurdod Cymreig datganoledig nad yw'n caffael o dan drefniant caffael a gedwir yn ôl na threfniant caffael a drosglwyddwyd i Ogledd Iwerddon.<br><br>Mae Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 wedi gwneud diwygiad er mwyn esemptio awdurdodau contractio Cymreig datganoledig rhag adran 17 mewn perthynas â chyfleustodau preifat (gweler rheoliad 47 o'r rheoliadau hynny).<br><br>Effaith y diwygiadau hyn yn y ddwy set o reoliadau yw na fydd adran 17 yn gymwys i unrhyw gyfleustodau preifat. | Cyfleustodau preifat |